

Ymholiadau Adran 126



Mae'r Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant yn amlinellu newid mewn diwylliant o ran swyddogaethau ymholiad diogelu Adran 126.

Mae'r adran hon yn berthnasol pan fo gan awdurdod lleol achos rhesymol i amau bod oedolyn yn eu hardal (pa un a ydynt yn preswyllo yno fel arfer ai peidio) -

- ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio)
- yn profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o hynny;
ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw'n gallu diogelu ef neu hi ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r risg o hynny.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud (neu achosi iddynt gael eu gwneud) pa bynnag ymholiadau y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd camau yn achos yr oedolyn (boed hynny o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pwy ddylai eu cymryd.

Pwrpas:

Pwrpas yr ymholiad yw penderfynu a ddylai awdurdod lleol neu sefydliad arall, neu unigolyn, wneud rhywbeth i helpu ac amddiffyn yr oedolyn.

Mae ymholiadau yn ymarferion casglu gwybodaeth (nid ymchwiliadau ffurfiol), mae gwneud ymholiadau ar wahân i asesiadau gofal a chymorth ond maent yn gysylltiedig ac mae'n rhaid cofnodi canfyddiadau'r ymholiadau mewn cynllun gofal a chymorth (os oes cynllun) neu mewn cofnod achos unigol.

Proses

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai sefydliad arall wneud yr ymholiad, er enghraifft darparwr gofal, dylai'r awdurdod lleol fod yn glir ynghylch terfynau amser, yr angen i wybod canlyniadau'r ymholiad a pha gam gweithredu i'w gymryd os nad yw hyn wedi'i wneud.

Asiantaethau Partner sy'n gallu ymgymryd ag Ymholiadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Ymarferwyr Arweiniol) Heddlu Gogledd Cymru
Y Gwasanaeth Prawf
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Gwasanaethau a Gomisiynir (Rheolwyr)

Ni ddylid rhuthro ymholiadau, ond dylid gosod terfynau amser. Fel arfer, dylid cwblhau ymholiad o fewn SAITH niwrnod gwaith o'r adroddiad. Os bydd hyn yn cymryd mwy o amser na hynny, dylid cofnodi rhesymau. Dylai'r ALI fonitro cynnydd yr ymholiad os oes asiantaeth arall yn gwneud yr ymholiadau a sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau amser i rwystro oedi.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, yn eu rôl arweiniol a chydlynol, sicrhau bod yr ymholiad yn bodloni ei ddyletswydd dan adran 126 i benderfynu pa weithred (os o gwbl) sydd ei hangen i helpu a diogelu'r oedolyn, a pwy ddylai wneud hyn, a sicrhau y cymerir y camau hyn ble bo angen.

Ymgysylltiad oedolyn mewn perygl: Dylai beth sy'n digwydd yn sgil ymholiad adlewyrchu dymuniadau'r oedolyn lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fel sydd wedi'i nodi ganddyn nhw neu gan eu cynrychiolydd neu eiriolwr. Os oes diffyg galluedd, dylid gwneud penderfyniadau er budd gorau'r unigolyn, ac yn gymesur â lefel y pryder.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol o hyd yw sicrhau bod yr ymholiad yn cael ei gyfeirio i'r lle cywir a bod rhywbeth yn cael ei wneud yn ei gylch.

<https://www.diogelu.cymru/>

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/>